# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 3 (Senedd)**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Ionawr 2024

Amser: 13:15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

---

## Cofrestru cyn y cyfarfod (13:00-13:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(13:15)

**2.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch cymorth i blant o Wcráin**

(Tudalennau 1 - 3)

**2.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Gwaith a Phensiynau**

(Tudalen 4)

**2.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Cadeirydd ynghylch tystiolaeth gan y Comisiynydd Plant ynghylch Hiliaeth a Thlodi**

(Tudalennau 5 - 6)

**2.4 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Nulyn**

(Tudalen 7)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cadeirydd ynghylch ymchwiliad i Lywodraethiant rhwng y DU a'r UE**

(Tudalennau 8 - 9)

**2.6 Gohebiaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth at y Cadeirydd ynghylch Cyfiawnder Data (Saesneg yn unig)**

(Tudalennau 10 - 14)

**2.7 Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - "Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well"**

(Tudalennau 15 - 21)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(13:15)

## 4 Cyllideb Ddrafft 2024-25: briffio technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

(13:15-14:00)

Matt Wellington, Llywodraeth Cymru, Swyddog y Trysorlys
Mike Llewellyn, Llywodraeth Cymru, Swyddog y Trysorlys

## 5 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: trafod y materion allweddol

(14:00-15:00) (Tudalennau 22 - 52)

## 6 Blaenraglen waith: trafod y dulliau

(15:00-15:30)

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Rhagfyr 2023

Anwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth i Wcráin a ffoaduriaid Wcráin, ynghyd â rhagor o wybodaeth am y gefnogaeth ddiwylliannol i blant Wcráin.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gynnig ei chefnogaeth i Wcreiniaid yn dilyn yr ymosodiad enfawr ar Wcráin y llynedd. Fel Cenedl Noddfa, ein nod yw sicrhau bod yr holl Wcreiniaid sy'n ceisio noddfa yng Nghymru yn cael eu croesawu o'u diwrnod cyntaf, ac yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i'w helpu i ymgartrefu mewn cymunedau lleol. Hyd yma, mae noddwyr yng Nghymru wedi croesawu dros 7,000 o Wcreiniaid o dan gynllun Cartrefi i Wcráin y DU, gan gynnwys mwy na 3,200 drwy'r llwybr uwch-noddi.

I Wcreiniaid sy'n cyrraedd Cymru, y flaenoriaeth o hyd yw eu cefnogi i ddod o hyd i lety tymor hirach a all ddarparu annibyniaeth a chyfle i ailadeiladu eu bywydau yn ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys eu lletya yng nghartrefi pobl, y sector rhentu preifat a mathau eraill o lety dros dro o ansawdd da y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i'w gefnogi drwy ein Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol. Sefydlwyd y rhaglen i ddarparu mwy o lety o ansawdd da yn gyflym i helpu gydag anghenion tai.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth gefnogi Wcreiniaid i setlo ac integreiddio i'r gymuned. Roedd y penderfyniad cyllido gan Lywodraeth y DU i leihau tariff integreiddio blwyddyn 1 yn un mawr, ac mae absenoldeb tariffau integreiddio ac addysg blwyddyn 2 wedi rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth hwn. Bydd y diffyg tariff integreiddio ar gyfer blwyddyn 3, sydd wedi'i gadarnhau, yn gwaethygu'r pwysau hyn yn ystod 2024/25.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym wedi defnyddio'r £8.22 miliwn y mae Cymru yn ei gael o Gronfa Atal Digartrefedd Llywodraeth y DU, sy'n werth £150 miliwn, i ddarparu cyllid ar gyfer symud pobl ymlaen a chymorth i integreiddio mewn meysydd fel addysg, gwersi iaith a rhaglenni cyflogadwyedd.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i gefnogi ein gwesteion o Wcráin i ddod o hyd i waith. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ESOL drwy raglenni a ariennid eisoes gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chynnig ar-lein dwys STEP Ukraine sydd ar gael am gyfnod penodol. Mae yna gefnogaeth hefyd o ran cydnabyddiaeth i gymwysterau fel y gall Wcreiniaid ddefnyddio eu sgiliau i gael gwaith yn eu dewis alwedigaeth.

Ar gyfer myfyrwyr o Wcráin sy'n dymuno astudio cwrs addysg uwch yng Nghymru, rydym wedi diwygio'r rheoliadau cymorth presennol i fyfyrwyr fel y gallant hwythau fod yn gymwys i gael y cymorth hwn, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu i israddedigion wrth ddechrau neu barhau â chwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2022.

Mae cynllun Tocynnau Croeso ar gael i Wcreiniaid sy'n darparu teithiau am ddim ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru a gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru tan 31 Mawrth 2024. Gwnaethom hefyd ymestyn ein Gwasanaeth Noddfa ar gyfer 2022/23 a 2023/24 i sicrhau mynediad at gyngor, cefnogaeth ac eiriolaeth arbenigol.

Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth a chanllawiau rheolaidd i Wcreiniaid sy'n byw yng Nghymru drwy Wasanaeth Noddfa Cymru, llwybr gwybodaeth penodol ar wefan Noddfa, a thrwy gylchlythyrau misol.

Yn ystod fy ymweliadau diweddar ag Wcreiniaid yng Nghaerffili a grŵp cymunedol Safe Haven ym Maesteg, rwyf wedi cael fy ysbrydoli gan barodrwydd ac ymdrech yr unigolion hyn i integreiddio i'w cymunedau lleol. Er yn croesawu hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod mor bwysig yw hi i Wcreiniaid barhau â'r cysylltiad â'u hiaith a'u diwylliant yn ystod eu hamser yng Nghymru. Mae fy swyddogion wedi cyfarfod yn rheolaidd â gweinyddwyr grwpiau cyfryngau cymdeithasol i nodi materion sy'n dod i'r amlwg a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth gywir a'i rannu â'n cymuned o Wcráin.

Fis Tachwedd y llynedd fe wnaethom nodi 90 mlynedd ers Holodomor, a'r mis diwethaf cynhaliwyd achlysur coffa yn y Senedd dan arweiniad y Prif Weinidog. A hwn yn ddyddiad coffa hynod bwysig i Wcreiniaid, roedd arweinwyr o gymunedau crefyddol Wcráin yno, Dirprwy Lysgennad Wcráin, Cymdeithas Wcreiniaid y DU, a llawer o unigolion sydd wedi dod o hyd i noddfa yng Nghymru.

Mae hwn yn un o nifer o ddyddiadau neu ddigwyddiadau diwylliannol pwysig i Wcreiniaid yr ydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth ohonynt drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyfathrebu'n rheolaidd â gwesteion a lletywyr ledled Cymru.

Ar gyfer plant sy'n cyrraedd Cymru o Wcráin, rydym yn ymgysylltu â Plast (sefydliad sgowtiaid yn Wcráin) a Sgowtiaid Cymru i weld sut y gallant ymuno â sefydliad ieuenctid cydnabyddedig a chael cefnogaeth ganddynt, heb golli eu hunaniaeth a'u diwylliant eu hunain.

Rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod modd i blant Wcráin fynd i ysgolion ac i gynnig yr un addysg a chymorth o ansawdd uchel iddyn nhw ag sydd ar gael i ddisgyblion sydd yno'n barod. Mae hyn yn cynnwys adnoddau sy'n ymwneud â'r gwrthdaro sydd wedi'u cyhoeddi ar Hwb, gyda'r nod o gefnogi myfyrwyr i ddeall y sefyllfa a rheoli eu teimladau.


Rydym hefyd yn cydnabod y gallai teuluoedd a disgyblion o Wcráin hefyd fod eisiau deunyddiau dysgu Wcreineg. Mae Gweinyddiaeth Addysg a Gwyddoniaeth Wcráin wedi cyhoeddi cwricwlwm Wcráin gan gynnwys deunyddiau addysgol. Gall ysgolion rannu hwn â disgyblion a theuluoedd o Wcráin i ategu addysg disgyblion naill ai gartref neu mewn ysgolion atodol er enghraifft. Fodd bynnag, ni ddylid eu defnyddio yn lle cwricwlwm arferol ysgolion.

Mae Gweinyddiaeth Addysg a Gwyddoniaeth Wcráin hefyd wedi cyhoeddi canllawiau i ddysgwyr i barhau ag asesiadau Cwricwlwm Wcráin y tu allan i Wcráin. Maent yn cynnwys opsiynau dysgu ac asesu ar gyfer myfyrwyr ysgol o Wcráin, cyfeiriadau at e-ddysgu sydd ar gael drwy Ysgol Ar-lein Wcráin, a'r broses ymgeisio i rieni gofrestru eu plant i ddysgu o bell drwy Ysgol Ryngwladol Wcráin.

Ar gyfer myfyrwyr sydd ar fin cwblhau addysg gynradd, addysg uwchradd sylfaenol, neu addysg uwchradd gyffredinol, mae'r canllawiau hefyd yn cynnig cyngor ar sut y gall graddedigion gael y tystysgrifau graddio perthnasol gan eu sefydliadau addysgol yn Wcráin.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf angenrheidiol i'r Pwyllgor am y cymorth rydym yn ei ddarparu i Wcreiniaid yng Nghymru.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/439/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

CC: Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

13 Rhagfyr 2023

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau wedi'i gynnal ar 6 Tachwedd.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Gweinidog Pobl Anabl, Iechyd a Gwaith, a oedd yn cynrychioli Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fel y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, â chyfrifoldeb am wasanaethau cynghori ac eiriolaeth, roeddwn i yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Hoffwn ymddiheuro na chawsoch wybod am y Grŵp Rhyngweinidogol cyn iddo gyfarfod am y tro cyntaf, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol. Byddaf yn rhoi gwybod i chi am holl gyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol yn y dyfodol.

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig** sy'n grynodeb o'r trafodaethau a gafwyd. Fel y cadarnhawyd yn y Datganiad, yn unol â threfniadau cylchdroi cadeiryddion, bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gadeirio gen i.

Rwy'n disgwyl i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal yng ngwanwyn 2024, a byddaf yn rhoi diweddariad ysgrifenedig ar y trefniadau, gan gynnwys agenda a dyddiad tebygol maes o law.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

14 Rhagfyr 2023

**Tystiolaeth ddiweddar gan Gomisiynydd Plant Cymru: hiliaeth a thlodi plant**

Annwyl Jenny,

Gwnaethom gynnal yn ddiweddar ein sesiwn graffu flynyddol gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Un o'r meysydd a drafodwyd gennym oedd dylanwad y Comisiynydd. Rydym yn nodi bod eich meysydd gwaith cyfredol yn cynnwys gwrth-hiliaeth a thlodi plant. Gan hynny, mae'n bosibl y bydd tystiolaeth y Comisiynydd i ni o ddiddordeb i chi. Pan ofynnwyd iddi ar ba feysydd, yn ei barn hi, y mae ganddi'r dylanwad mwyaf, dywedodd:

> *"So, we have, probably, had most traction in relation to education issues. We've been pleased with the response so far to the racism work and earlier conversations have indicated that Government are open to our recommendations and have in fact told us that they would wait to complete their anti-bullying guidance so that they could consider the recommendations of our report, for example.*
>
> *We've also had good influence, we feel, in relation to the new attendance guidance that's been published and many of our suggestions were taken on board there, including looking at the reduced timetables and making sure that the needs of kinship carers were responded to in that document.*
>
> *We also had influence positively in the home education space recently. When I came into the role I felt that it was a very polarised issue with a lot of tension on both sides, and perhaps the different groups not necessarily coming together effectively. So, I proposed to convene a forum for home-educating parents so that they could voice their concerns and have their questions answered about the new guidance that was about to come in—it came in in April 2023. And that was*

*positively received by Government and, I think, was concluded to be a very beneficial exercise all round.*

*So, education on the whole is one area where we do feel that there is openness to our input. We have tried a lot to influence the poverty agenda and the child poverty strategy, which we hope to see a final version of very soon. We feel that perhaps we haven't experienced as much openness so far in that dialogue. We have convened and collaboratively very significantly with other bodies on this issue. We hosted a child poverty summit recently and we've put forward recommendations and suggestions, on which there is a great deal of consensus from other groups, and have communicated that as best we can to Ministers very regularly; so, we are hoping that the final strategy will reflect our suggestions, but it's not, you know—. So far, we don't feel as confident about having positively influenced that yet, although, you know, we've done our best."*[1]

Roeddem am dynnu eich sylw at y cyferbyniad y tynnodd y Comisiynydd sylw ato.

Ers inni gymryd y dystiolaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i adroddiad blynyddol y Comisiynydd. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir a yw wedi derbyn neu wrthod pob argymhelliad. Nodwn i'r Comisiynydd, yn ystod y sesiwn graffu flynyddol, sôn am fonitro cynnydd o ran yr argymhellion hyn, gan ddweud y byddai'n cadw llygad barcud arnynt i weld a ydynt wedi cael eu derbyn,[2] gan awgrymu bod disgwyl y bydd ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn fformat blynyddoedd blaenorol. Mae datgan yn glir a yw argymhelliad yn cael ei dderbyn neu ei wrthod yn bwysig ar gyfer eglurder a thryloywder. Byddwn yn ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y mater hwn hefyd.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

---

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr, Cofnod y Trafodion, paragraffau 180-183

[2] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr, Cofnod y Trafodion, paragraff 188

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

15 Rhagfyr 2023

Annwyl Huw,


**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn Nulyn**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 23 Tachwedd ynghylch y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol ac Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig sy'n cael ei chynnal yn Iwerddon, hoffwn dynnu eich sylw at fy natganiad ysgrifenedig heddiw, ac at hysbysiad y Cyngor sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Tra roeddwn yn yr Uwchgynhadledd, manteisiais ar y cyfle i gynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda'r Gweinidog Gwariant Cyhoeddus a Diwygio, Paschal Donohoe TD, y Taoiseach Leo Varadkar TD, Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Humza Yousaf ASA, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Llywodraeth Leol a Thai; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; a Chydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 2.5

Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and
Constitution Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Delyth Jewell AS
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

19 Rhagfyr 2023

Annwyl Gadeiryddion,

**Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE**

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd yn ystyried effaith gyfansoddiadol materion allanol Cymru, gan gynnwys llywodraethiant a gweithredu cytundebau rhwng y DU a'r UE.

Yn ddiweddar gwnaethom gynnal ymchwiliad byr i lywodraethiant y DU a'r UE i adeiladu ar ein canfyddiadau cynnar ar rôl a chynrychiolaeth Llywodraeth Cymru a'r Senedd mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit, fel y nodwyd yn ein tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref 2022.

Oherwydd y gwaith y mae eich Pwyllgorau yn eu gwneud o fewn eich cylch gwaith mewn perthynas â chytundebau rhwng y DU a'r UE, cytunwyd i dynnu eich sylw at ein adroddiad ar yr ymchwiliad.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Er gwybodaeth, rydym yn bwriadu cynnal dadl ar yr adroddiad ar 21 Chwefror 2024.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

The ICO exists to empower you through information.
Mae'r ICO yn bodoli i'ch grymuso chi drwy gyfrwng gwybodaeth.

2nd Floor, Churchill House, Churchill Way, Cardiff, CF10 2HH
Ail Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH
T. 0330 414 6421 E. wales@ico.org.uk / cymru@ico.org.uk
ico.org.uk

Jenny Rathbone MS

Chair of Equality and Social Justice Committee

By email only

22 December 2023

Dear Ms Rathbone

**Inquiry into Data Justice**

I am writing to you in your capacity as Chair of the Equality and Social Justice Committee and, in particular, in relation to the Committee's inquiry into data justice. The work of my team, and the expertise we hold on the issues being scrutinised, may be of use to this inquiry, and may also help inform any future work the Committee may undertake.

The ICO is the UK regulator of the UK General Data Protection Regulation (GDPR) and Data Protection Act 2018 (DPA), and has an office in Cardiff dealing with the interactions between our remit and public affairs in Wales. I am responsible for that office, and my team works alongside health and social care bodies in Wales to help them ensure that data privacy and information rights are built into their data processing activities. We also engage with Welsh Government officials to help them ensure that new policies and legal measures are developed in accordance with the legislation we regulate.

The below comments are offered in respect of the key issues that have been scrutinised by the Committee thus far. They are designed to give the Committee our regulatory perspective on these matters, in particular with reference to personal data processing in Welsh health and social care sectors. Where appropriate, further detail is provided through links to information and guidance published on our website.

**The role and remit of the ICO**

Where proposed legal measures developed by Welsh Ministers - including primary and secondary legislation, statutory guidance or ministerial instruction - mandate or provide for personal data to be used in new or different ways, Article 36(4) of the UK GDPR requires that prior consultation with the ICO must take place. Comments and views that we convey during the consultation process

must be taken into consideration as the measure is implemented. Guidance for legislators on Article 36(4) has been published by the UK Government[1].

The identification of privacy risks contained within legislative proposals is our key objective during the Article 36(4) consultation process. This helps to prevent legislative measures being passed which provide a high risk to the data protection rights of individuals impacted by the proposals.

Our experience of Article 36(4) consultations has taught us that identifying and mitigating risks at an early stage of the development procedure is beneficial to all parties involved. For example, identifying a flow of data between organisations in the initial phases of developing policy can allow for effective data sharing measures to be put in place prior to the commencement of the measure.

Outside of the legislative framework, organisations that determine the purposes and means for personal data processing (data controllers) are required under Article 36(1) to consult with the ICO on any high-risk processing activities they are seeking to undertake. If we are concerned that the risks of such processing are not mitigated to a sufficient degree, we can consider using our regulatory powers to prevent the processing from taking place. By way of example, we have previously issued a formal warning to a Welsh organisation that was unable to mitigate risks that we highlighted within a proposed processing activity.

The Committee can therefore have some assurance that the existing UK legal framework for data protection requires independent and regulatory scrutiny of proposals to use personal heath and social care data, and that the matters addressed in this letter will be considered by us as part of that work.

**Transparency around the use of data**

Transparency is enshrined in data protection law, with individuals having a right to be informed under the UK GDPR. Our own research[2] has also highlighted that transparency is a precedent to individuals becoming empowered through information. The provision of clear information about how health and social care bodies will process the personal data of the citizens of Wales is crucial in engendering the trust necessary for effective service delivery.

As part our upstream engagement work, we have been involved in discussions with Welsh Government and health and social care bodies around initiatives such as the Data Promise and National Data Resource. Both of these initiatives appear

---

1 Guidance for legislators on Article 36(4)
2 Data Lives Year 1 Report (ico.org.uk)

to be good opportunities to provide information to the citizens of Wales as to how their data will be collected, used, stored, shared and kept secure.

We would expect that measures designed to provide data transparency provide this information in a clear and practical way, and in line with obligations provided in Articles 13 and 14 of the UK GDPR. We will continue to provide advice and guidance to Welsh Government and health and care bodies in relation to this subject.

The purpose behind any new processing of personal data is of fundamental importance for data protection compliance, as the purpose will almost always determine which of the lawful bases specified in the UK GDPR should underpin the processing. The specific information rights available to individuals will depend on the lawful basis being relied upon.

Legislative measures dictating new collection, sharing, analysis or other processing activity should therefore have a clear and specific rationale as to why they are being developed, and that rationale must be conveyed in any subsequent transparency information. Failure to do may result in a 'data grab' of personal information, where information is collected under the assumption that it will prove useful at a later date, something which is not compatible with data protection laws.

The ICO has recently drafted new guidance on data transparency in a health and social care context, which will give practitioners an idea of our expectations. The draft guidance is currently out for consultation[3], and my team has circulated it to stakeholders in health and social care organisations across Wales. While our guidance applies to the UK as a whole, this will allow us to consider views specific to Wales as we develop the final version.

**Individuals' control over their data**

It may be useful to the Committee to know that while data protection laws undoubtedly afford citizens greater control over their data, some of the rights provided by the UK GDPR are not absolute. By way of example, the right to have data erased is a qualified right that allows for individuals to *request* their data is deleted. However, the data controller is compelled only to *consider* the request, and may determine that they are lawfully entitled to continue to hold and process it. Requests submitted under UK GDPR for the deletion of health data being processed for legitimate reasons (such as GP or hospital health records) are unlikely to be accepted.

---

[3] ICO consultation on the draft transparency in health and social care guidance | ICO

Information Commissioner's Office

Similarly, when considering an individual's request under UK GDPR to restrict access to their records to specific clinicians or professionals, organisations will take into account the fact that the record exists to support safe and appropriate provision of care. This will be balanced against the individual's reasons for the restriction being put in place, before an outcome is reached.

The ICO has the power to investigate complaints that information rights have not been upheld, although we do not have the clinical expertise to determine a view on the provision of care; that is a matter for health and social care professionals or other regulatory regimes to determine. However, we support the view that holding details of professionals who have accessed specific records is good practice and can help identify and address issues of inappropriate access. This is something we are aware that exists in Welsh healthcare bodies through the National Intelligent Integrated Audit Solution (NIIAS) system.

In our experience, informing patients as to how they can expect their rights requests to be handled, along with likely expectations, can form an integral and effective component of transparency measures. As stated earlier in this letter, this is likely to help engender trust in how data is being processed, and empower individuals to exercise their rights appropriately and effectively.

## Offences and breaches of data protection law

It may be useful for the Committee to be aware that section 170 of the DPA makes it an offence for an individual to access or disclose (or procure access or disclosure of) personal data without the consent of the data controller. In essence this means that clinicians and other staff can only lawfully access medical records when it is necessary to do so in order to perform their functions. There are a number of instances where health staff have been prosecuted for such offences, either by the ICO or by the police[4].

## Processing of children's data

Under data protection law, children are afforded greater measures of protection, and practitioners across Wales who process the data of children and young people need to be aware of this fact. In particular, transparency information must be written in clear language appropriate to the age of the audience and

---

[4] Former NHS secretary found guilty of illegally accessing medical records | ICO

any reliance on consent for data processing must take into account the age of the individual.

Further guidance on the rights of children under data protection laws can be found on our website[5]. I realise that some of the guidance and resources, such as our tools for safeguarding practitioners, may be outwith the scope of the Committee's interests at this stage but share here for awareness nonetheless.

I trust that the Committee finds this letter to be of use in their inquiry into data justice in Wales, and would be happy to provide further evidence should it be required.

Yours sincerely

Regional Manager

ICO Wales

[5] Children's information | ICO

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well**

**RHAGFYR 2023**

---

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am eu hadroddiad: *Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well*. Mae fy swyddogion a minnau wedi ei ystyried yn ofalus.

Fel y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, bydd ein dull gweithredu strategol o fynd i'r afael â thlodi plant yn cael ei adlewyrchu yn ein Strategaeth Tlodi Plant, sydd i'w chyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Mae'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed i ddatblygu'r Strategaeth Tlodi Plant (y Strategaeth) wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddeall ble, fel rhan o'n gwaith ehangach i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, y mae angen inni ganolbwyntio ein hymdrechion. Y nod yn hyn o beth yw sicrhau'r effaith fwyaf wrth fynd i'r afael â thlodi plant mewn cyn lleied o amser â phosibl, a chynnal y newid hwnnw.

Mae'r Strategaeth yn fframwaith lefel uchel i'n galluogi i fanteisio i'r eithaf ar yr ysgogiadau sydd ar gael i ni ar draws y llywodraeth er mwyn helpu i ddileu tlodi plant. Mae yna gamau y mae angen i ni eu cymryd, a chamau yr ydym yn eu cymryd, i sicrhau y gall sefydliadau gydweithio'n well a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thlodi plant fel nod cyffredin. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid er mwyn helpu i gyflwyno gwaith trawsbynciol i gyflawni hyn.

Rwyf wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi plant fel prif flaenoriaeth, yn yr un modd â Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i fanteisio ar yr holl ysgogiadau sydd ar gael i ni, gan chwarae rôl arweiniol wrth gydgysylltu camau ehangach i weithio tuag at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Rwy'n ymateb i argymhellion y Pwyllgor isod.

**Argymhelliad 1**
Wrth ddiweddaru ei dull strategol o fynd i'r afael â thlodi plant, dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a ganlyn:

I. Gosod **targedau** interim a rhai tymor hwy ar gyfer lleihau tlodi plant gan ddysgu o’r dulliau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill fel yr Alban a Seland Newydd. Dylai’r rhain anelu at ostyngiadau uchelgeisiol a realistig yn nifer y plant mewn tlodi cymharol, tlodi absoliwt, amddifadedd materol a thlodi parhaus.

II. Cyhoeddi **cynllun gweithredu** manwl yn nodi sut y bydd yn cyflawni ei thargedau. Dylai pob gweithgaredd yn y cynllun gweithredu nodi pa Weinidog sy’n gyfrifol am ei gyflawni, amserlenni, a sut y caiff ei fonitro. Dylid cyhoeddi’r cynllun gweithredu o fewn chwe mis ar ôl cyhoeddi’r Strategaeth derfynol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

I. Mae gwaith i ddatblygu fframwaith monitro cadarn yn cael ei ddatblygu ar fyrder. Bydd y fframwaith yn ystyried y dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir cenedlaethol sydd gennym yn eu lle o dan Ddeddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol. Credwn y bydd fframwaith sy'n seiliedig ar ystod o fesurau yn adlewyrchu cynnydd yn erbyn ein dull o ymdrin â'r gyfres gymhleth hon o broblemau yn fwy cywir nag y byddai mesur sy'n seiliedig ar dargedau yn unig. Y ffordd fwyaf effeithiol o weithredu targedau yw drwy ddull gweithredu cydgysylltiedig ar draws pob lefel lle caiff pwerau perthnasol eu dal. Byddwn yn parhau i gysylltu â Llywodraeth yr Alban i ddeall cwmpas ac effaith ei chyfres o ymyriadau o ran y rhai sy'n byw mewn tlodi. Er hynny, mae ystod o bwerau pwysig ar dlodi plant nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru, sy'n cyfyngu ar werth cymharu â gwledydd fel yr Alban neu Seland Newydd, gan gofio wrth gwrs bod budd-daliadau lles a threth yn arfau allweddol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi.

Er mwyn datblygu trefniadau monitro clir, rydym wedi ymrwymo i  geisio cyngor ymchwil annibynnol yn ystod 2024 ar ddangosyddion tlodi cenedlaethol addas, argaeledd data a fframwaith i fonitro a dangos atebolrwydd tryloyw wrth adrodd ar ein cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi. Byddwn hefyd yn parhau i baratoi adroddiad llawn ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth bob tair blynedd, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd 2010. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd pobl â phrofiad uniongyrchol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn dweud wrthym a ydym yn gwneud cynnydd ai peidio yn erbyn y Strategaeth.

II. Yn hytrach na chael cynllun gweithredu cyffredinol, mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn darparu fframwaith lle mae cynlluniau gweithredu ar wahân ar draws portffolios y Gweinidogion sy'n manylu ar gynnydd a'i fesur o dan y gweithgaredd perthnasol yn y Rhaglen Lywodraethu.  Bydd y Strategaeth newydd yn cefnogi blaenoriaethu, integreiddio a chydweithio, gan annog partneriaid i weithio mewn ffyrdd newydd neu wahanol er mwyn cael yr effaith fwyaf.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Argymhelliad 2**

Dylai Llywodraeth Cymru roi ffocws llawer cliriach ar **hawliau plant** yn ei Strategaeth derfynol, **gan gyfeirio at erthyglau unigol** a defnyddio'r pum egwyddor a nodir yn 'Y Ffordd Gywir'. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr hyn a ddywedwyd wrthi gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r camau gweithredu penodol sy'n cael blaenoriaeth yn y Strategaeth derfynol, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y grwpiau o blant y mae tlodi'n fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Strategaeth derfynol yn cynnwys cyfeiriad cliriach a mwy penodol at erthyglau unigol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Bydd y Strategaeth derfynol hefyd yn cynnwys cyfeiriad at 'Y Ffordd Gywir' o dan Amcan 5. Wrth inni weithio gyda phartneriaid er mwyn cryfhau trefniadau cydweithio, dod o hyd i ddatrysiadau gyda'n gilydd a hybu arferion da, bydd yn bwysig sicrhau ein

bod ni gyda'n gilydd yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Bydd 5 egwyddor 'Y Ffordd Gywir' yn llywio hyn.

Mae'r ymrwymiadau a geir o dan y 5 amcan yn y Strategaeth wedi cael eu llywio gan yr hyn a ddywedwyd wrthym gan blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth ddrafft yn nodi'n glir mai'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth yw'r rhai cywir.

O'r rhai a atebodd gwestiynau ynghylch a oeddent yn cytuno y dylai Amcanion 1-5 fod yn amcanion yn y strategaeth:

- roedd 92% yn cytuno ag Amcan 1
- roedd 94% yn cytuno ag Amcan 2
- roedd 91% yn cytuno ag Amcan 3
- roedd 89% yn cytuno ag Amcan 4
- roedd 93% yn cytuno ag Amcan 5

O'r rhai a atebodd gwestiynau ynghylch a oeddent yn cytuno y dylai blaenoriaethau 1-5 fod yn flaenoriaethau yn y strategaeth:

- roedd 87% yn cytuno â Blaenoriaeth 1
- roedd 89% yn cytuno â Blaenoriaeth 2
- roedd 88% yn cytuno â Blaenoriaeth 3
- roedd 86% yn cytuno â Blaenoriaeth 4

roedd 87% yn cytuno â Blaenoriaeth 5

Byddwn yn adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i nodi'r dystiolaeth gan blant a phobl ifanc a sut y dylanwadodd hyn ar y Strategaeth gyda mwy o eglurder.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad mwy manwl o'r dystiolaeth a gasglwyd drwy waith ymgysylltu cyn ymgynghori gan y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim.

**Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu rhaglenni lle mae tystiolaeth glir eu bod yn effeithiol o ran lleihau tlodi plant, a dylai ddarparu cyllid cynaliadwy i raglenni sydd wedi profi eu gwerth. Dylai’r blaenoriaethu hwn lywio dyraniadau yng nghyllidebau’r dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Dylid bob amser neilltuo adnoddau i'r meysydd lle y maent fwyaf effeithiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo adnoddau'n fwyaf cyfyngedig. Felly mae wedi bod yn ystyriaeth allweddol ym mhrosesau cyllideb 2023-24 a 2024-25 Llywodraeth Cymru.

Rydym yn nodi'n glir y dylid cynnal a chryfhau momentwm trawslywodraethol ar fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ar bob cyfle, er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Rydym hefyd yn glir ynghylch pwysigrwydd parhau i asesu'n ofalus effeithiau cronnus ein penderfyniadau ar y rhai sy'n byw mewn tlodi.

Bydd ein gwaith o dan y Strategaeth Tlodi Plant yn canolbwyntio ar y rhaglenni a'r ymyriadau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf o ran lleihau tlodi plant o fewn ein pwerau datganoledig.

Rydym yn cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sy'n sail i'n penderfyniadau am wariant, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r rhaglenni cywir. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'r Gyllideb ddrafft ac mae'n hanfodol i nodi tueddiadau allweddol, effeithiau strategol a chronnus ar lefel portffolio, ar draws ystod o feysydd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth briodol ar draws y gofynion statudol.

Rydym yn parhau i amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd i ddiwygio gwelliannau i brosesau treth a chyllideb fel rhan o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft. Rydym hefyd yn cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i archwilio sut i ymgymryd â'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn y dyfodol.

Caiff asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, eu cynnal fel rhan o'n prosesau parhaus ar gyfer datblygu ac adolygu polisïau.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Argymhelliad 4**
Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu System Fudd-daliadau i Gymru, gan gynnwys:

I. Cerrig milltir y mae'n disgwyl eu cyflawni dros y flwyddyn nesaf, amserlenni ar gyfer rhoi camau gweithredu eraill ar waith, a sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â rhwystrau rhag gweithredu system gydlynol fel meini prawf cymhwysedd, ansicrwydd ynghylch rhannu data, a heriau technolegol.

II. Pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i sut y gall y cynlluniau peilot sy'n cael eu cynnal yn yr Alban i gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau lywio ei gwaith ar System Fudd-daliadau i Gymru.

III. Dadansoddiad o sut y gellid cyflwyno fersiwn o Daliad Plant yr Alban yng Nghymru yn y dyfodol.

Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amseru ar gyfer y diweddariadau cynnydd chwe-misol a addawyd mewn ymateb i argymhelliad 5 yn ein hadroddiad dyled a chostau byw.

**Ymateb: Derbyn**

I. Mae Cyngor Partneriaeth Cymru, sy'n cynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, wedi cytuno ar y canlynol:

- drafft terfynol y Siarter ar gyfer darparu Budd-daliadau Cymru (Atodiad A)
- sefydlu Grŵp Llywio allanol i ddatblygu cynllun gweithredu a goruchwylio ei waith
- enwebu cynrychiolwyr ar gyfer y Grŵp Llywio allanol
- cynllun ar gyfer adroddiadau diweddaru rheolaidd ar gynnydd i symleiddio'r gwaith o weinyddu budd-daliadau, grantiau a thaliadau Cymru

Er mwyn cynnal y ffocws ar ddatblygu cynllun gweithredu ar fyrder, mae swyddogion yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gadarnhau aelodaeth y Grŵp Llywio allanol, a fydd yn cynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2024. Bydd y Grŵp Llywio allanol yn darparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i Gyngor Partneriaeth Cymru a bydd y rhain yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Senedd wrth inni wneud cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn.

II. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion Llywodraeth yr Alban i ddysgu gwersi o'i phrofiad o ddarparu budd-daliadau, a'i gwaith o fabwysiadu fframwaith gwerthuso a Siarter. Byddwn yn archwilio'n ofalus y cynlluniau peilot sy'n cael eu cynllunio gan Social Security Scotland ar gyfer gwaith ar y cyd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddeall sut y gallai deilliannau lywio ein dull gweithredu ar gyfer darparu budd-daliadau, taliadau a grantiau i Gymru.

III. Nid yw'r setliad datganoli yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i weithredu cynllun sy'n debyg i Daliad Plant yr Alban. Fodd bynnag, rydym yn gwneud gwaith manwl i sefydlu yn fwy clir y cydbwysedd rhwng pwerau a gedwir yn ôl a rhai datganoledig yn y maes hwn, yn ogystal â chysylltu â Llywodraeth yr Alban i ddeall cwmpas, effaith a heriau eu taliad plant.

Mae paragraff 130 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) yn nodi bod cynlluniau nawdd cymdeithasol a gefnogir gan arian cyhoeddus yn faterion a gedwir yn ôl gan Senedd y DU ac na all Senedd Cymru ddeddfu arnynt. Mae'r diffiniad o gynlluniau nawdd cymdeithasol yn benodol yn cynnwys cynlluniau sy'n darparu cymorth ariannol at ddibenion nawdd cymdeithasol ac yn benodol, mae'n cynnwys darparu cymorth i unigolion sy'n gymwys oherwydd henaint, goroesedd, anabledd, salwch, analluogrwydd, anaf, diweithdra, mamolaeth neu ofal plant neu eraill sydd angen gofal, sy'n gymwys oherwydd incwm isel, neu mewn perthynas â'u costau tai.

Mae Deddf yr Alban 1998 yn rhoi pwerau cyfyngedig i Lywodraeth yr Alban ar gyfer elfennau o nawdd cymdeithasol. O ganlyniad, mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn derbyn cyllid canlyniadol Barnett ar gyfer nawdd cymdeithasol, rhywbeth nad yw ar gael i Lywodraeth Cymru o dan y setliad datganoli presennol.

Argymhellir bod diweddariadau mewn ymateb i argymhelliad 5 adroddiad Dyled a Chostau Byw y Pwyllgor yn cyd-fynd â'r adroddiadau cynnydd i Gyngor Partneriaeth Cymru. Bydd y trefniadau ar gyfer hyn yn cael eu trafod gan y Grŵp Llywio allanol ym mis Ionawr 2024.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Argymhelliad 5**
Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu darpariaeth gofal plant ddi-dor a fforddiadwy drwy'r cyllid canlyniadol Barnett y bydd yn ei gael o ganlyniad i'r cynnydd mewn gwariant ar ofal plant yn Lloegr. Dylai ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwneud hyn erbyn mis Gorffennaf 2024.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae datblygu cefnogaeth o ansawdd uchel i blant a theuluoedd yn y blynyddoedd cynnar wedi bod yn flaenoriaeth hirsefydlog i Lywodraeth Cymru, ac mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn y Cytundeb Cydweithio. Darparodd ein Grant Plant a Chymunedau sy'n cefnogi gweithgareddau atal ac ymyrryd cynnar i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gyllid gwerth £172.269m yn 2023-24. Mae dysgu a gofal o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn cefnogi datblygiad plant ac yn chwarae rhan bwysig o ran eu paratoi ar gyfer bywyd yr ysgol a mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd hyn yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl o ran datblygiad y plentyn i gefnogi'r dechrau gorau mewn bywyd, yn enwedig i'n plant mwyaf difreintiedig.

Ers 2022, o ganlyniad i'r gwaith o ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg, mae 4,589 o leoedd gofal plant ychwanegol wedi'u cynnig, a chyfleoedd wedi'u hestyn i'r rhai sy'n hyfforddi neu ar gyrion gwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu'r sefyllfa ariannol fwyaf heriol yr ydym wedi'i hwynebu ers datganoli. Mae hyn yn golygu bod angen inni flaenoriaethu'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym. O ganlyniad i'r amodau economaidd anodd iawn a wynebwn, mae hyn yn golygu nad ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gadarnhau unrhyw ymrwymiadau newydd ar gyfer gwaith ehangu gofal plant wedi'i ariannu y tu hwnt i'r ymrwymiadau yr ydym eisoes wedi'u cyhoeddi.

Yn unol ag arfer hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru, bydd unrhyw symiau canlyniadol ar gyfer 2024-25 a dderbynnir drwy fformiwla Barnett yn cael eu rheoli drwy broses y Gyllideb ddrafft yn seiliedig ar y cyllid a ddaw i law. Pan fo achos dros ddefnyddio'r cyllid canlyniadol at ddibenion tebyg, bydd Gweinidogion Cymru yn dosbarthu yn unol â blaenoriaethau.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

**Argymhelliad 6**

Pan fydd y cyfle cyntaf yn codi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi plant yn cael eu cydgysylltu'n well ar draws y llywodraeth drwy benodi Gweinidog Babanod, Plant a Phobl Ifanc penodedig i fod yn gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi plant. Yn y cyfamser, dylai'r Prif Weinidog gymryd cyfrifoldeb am y maes hwn, fel sy'n cael ei wneud yn Iwerddon ac a oedd gynt yn cael ei wneud yn Seland Newydd.

**Ymateb: Gwrthod**

Y Prif Weinidog sy'n gyfrifol am ddyrannu portffolios gweinidogol, ond mae pob un o Weinidogion Cymru yn gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi o fewn eu portffolios. Mae gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip gyfrifoldebau penodol sy'n ymwneud â chydlynu mesurau i liniaru tlodi plant ac mae'n trafod yn rheolaidd â'r Gweinidogion eraill fuddiannau cyffredin mewn perthynas â thlodi ac anghydraddoldebau.

Mae dyletswydd ar bob aelod o'r Cabinet fel Gweinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r ddyletswydd 'sylw dyledus' a nodir yn adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gymwys i holl Weinidogion Cymru pan fyddant yn arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau.

Mae'r Strategaeth yn cadarnhau y byddwn yn parhau i fynd ati mewn modd sy'n canolbwyntio ar hawliau plant o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gyda mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb yn ffactorau ysgogi polisi trawsbynciol.

**Goblygiadau Ariannol** –

Dim.

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon